**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-03-02(min)**

## Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | 24 Ebrill 2002 | |
| Amser: | 10.00am | |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | | |
| Aelodau | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gŵyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Huw Lewis | Merthyr Tudful a’r Rhymni |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Ymgynghorwyr i’r Pwyllgor | Kate Bennett | Y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Alan Thomas | Y Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Yn cyflwyno i’r Pwyllgor | Glyn Mathias | Y Comisiwn Etholiadol |
| | Kay Jenkins | Y Comisiwn Etholiadol |

| | | |
|---|---|---|
| | Steve Thomas | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| | John Scampion | Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo |
| | Rachel Morris | Uned Ymchwil i Gyfraith Teithwyr, Prifysgol Caerdydd |
| Swyddogion | Elisabeth Jones | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| | Steve Pomeroy | Pennaeth Uned y Cabinet a Chyfansoddiad |
| | Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EOC-03-02(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Will Bee a Mashuq Ally.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bu’r dystiolaeth a gyflwynwyd ger bron y pwyllgor yn Nulyn yn werthfawr iawn ar gyfer yr Adolygiad Sipsiwn-Deithwyr. Roedd y cyflwyniadau a wnaed gan sefydliadau Teithwyr yn arbennig o ddiddorol.
- Gwnaeth yr Awdurdod Cydraddoldeb argraff dda ar y pwyllgor yn ystod yr ymweliad i Ddulyn ac roedd y pwyllgor o’r farn fod manteision yn sgîl cael un corff cydraddoldeb statudol yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai’n rhaid i’r Pwyllgor ystyried y mater hwn ar adeg fwy priodol.

1.3 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgor ar nifer o ddatblygiadau eraill ym maes cydraddoldeb:

- Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ynghylch y Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Cytunodd y Prif Weinidog y dylid ymgynghori ag aelodau Cabinet y Cynulliad ar y Cod ac y byddai’n cael ei drafod mewn cyfarfod llawn ym mis Mehefin.
- Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog mewn perthynas â’r Cynllun Cydraddoldeb Prif Ffrydio estynedig. Yn awr byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal gydag aelodau Cabinet y Cynulliad ar y cynllun.

- Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt, ac wedi sicrhau bod amser i drafod y Cynllun Cydraddoldeb ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.
- Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar y strategaeth Recriwtio a Defnyddio Staff gydag aelodau o staff y Cynulliad ac roedd y broses o werthuso'r ymatebion yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu adnoddau staff ychwanegol i'r Adran Personél er mwyn ymgymryd â'r dasg hon.

1.4 Cytunodd y pwyllgor i wneud cais am adroddiad mwy cyflawn ar gynnydd ar y strategaeth Recriwtio a Defnyddio Staff ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 2: Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio**

Papur: EOC 03-02(p2)

2.1 Amlinellodd Glyn Mathias a Kay Jenkins swyddogaethau ac amcanion y Comisiwn Etholiadol. Un o brif amcanion y Comisiwn oedd sicrhau y gallai pawb ddefnyddio'r system etholiadol. Roedd y Comisiwn yn atebol i'r Senedd ac roedd ganddo bedair prif swyddogaeth: swyddogaeth rheoleiddio, mewn perthynas â rhoddion i bleidiau gwleidyddol ac ariannu ymgyrchoedd; cyfrifoldeb dros refferenda; dyletswydd statudol i gyflwyno adroddiadau ar etholiadau, gan gynnwys etholiadau'r gweinyddiaethau datganoledig; a swyddogaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r system etholiadol a democrataidd. Fel rhan o'r swyddogaethau hyn, byddai'r Comisiwn yn trefnu ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003 ac roedd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r gweithdrefnau er mwyn moderneiddio'r system etholiadol mewn pryd ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf.

2.2 Cydnabu'r Comisiwn Etholiadol bwysigrwydd sefydlu system etholiadol gynhwysol, a oedd yn hygyrch i bawb. Bu'r Comisiwn yn gweithio gyda Scope, y Comisiwn Hawliau Anabledd a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion i gynhyrchu canllawiau ar gyfer swyddogion etholiadau ar fynediad i bobl ag anableddau corfforol a nam ar eu golwg. Cynhaliodd y Comisiwn brosiectau peilot gyda'r bwriad o sicrhau'r cyfranogiad uchaf posibl mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr. Bu Scope yn ymwneud â'r broses o'u gwerthuso. Dangosodd profiad y Comisiwn rai problemau cyffredin gan gynnwys gwrthwynebiadau i ailgynllunio gorsafoedd pleidleisio a diffyg rheolaeth awdurdodau lleol dros leoliad rhai gorsafoedd pleidleisio. Roedd angen eglurhad hefyd ynghylch pwy fyddai'n ariannu'r gwaith o wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a byddai'n bwysig o ran gwaith blaen gynllunio'r Comisiwn. Roedd y Comisiwn hefyd yn ystyried hyfforddiant cydraddoldeb i swyddogion etholiadau a chlercod pleidleisio er mwyn ymdrin â materion hygyrchedd mewn ffordd ymarferol.

2.3 Amlinellodd Steve Thomas y camau yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn eu cymryd i annog y nifer uchaf posibl o bleidleiswyr mewn etholiadau yng Nghymru. Fel rhan o'r strategaeth i sicrhau'r nifer uchaf posibl o bleidleiswyr, roedd CLlLC yn ystyried manteision cynnal etholiadau dros nifer o ddiwrnodau a chaniatáu i bobl ifanc deunaw mlwydd oed ddod yn gynghorwyr.

Roedd CLlLC yn annog defnyddio systemau pleidleisio drwy'r post fel ffordd o gynyddu nifer y pleidleiswyr ond yn derbyn y dylai gorsafoedd pleidleisio fod yn hygyrch i bawb er mwyn iddynt allu cyflawni eu hawl ddemocratig i bleidleisio. Roedd lleoliad ac addasrwydd adeiladau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn broblem a oedd yn wynebu CLlLC yn aml. Roedd y Comisiwn Etholiadol wedi gwneud cais i GLlLC ddatblygu prosiectau peilot ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2004 yng Nghymru. Byddai'r Uned Cydraddoldebau o fewn CLlLC yn trafod gyda'r Comisiwn Hawliau Anabledd i ddatblygu atebion ymarferol i broblemau mynediad fel rhan o'r cynllun hwn.

2.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Nid oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am etholiadau yng Nghymru ac felly roedd yn amharod i ddarparu arian ar gyfer mater a oedd y tu allan i'w awdurdodaeth. Roedd 50% o gost rampiau dros dro ar gyfer etholiadau yn cael ei dalu gan yr Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR). Roedd y Cynulliad yn talu am gost staff etholiadol ar gyfer etholiadau yng Nghymru. Roedd y pwyllgor o'r farn y dylai arian fod ar gael hefyd ar gyfer rheiliau llaw, goleuadau ac amrywiaeth o fesurau eraill i gynorthwyo pobl anabl mewn gorsafoedd pleidleisio. Gallai llywodraeth leol yng Nghymru wneud sylwadau i'r Cynulliad a'r llywodraeth ganolog o ran cael arian i sicrhau'r cyfranogiad gorau posibl a gwella hygyrchedd.
- Nid oedd deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu i brosiectau arloesol gael eu rhoi ar brawf yn ystod etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, gellid trefnu prosiectau peilot ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2004 yng Nghymru.
- Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol newid dyddiad etholiadau'r Cynulliad o fis y naill ochr i'r dydd Iau cyntaf ym mis Mai, bob pedwaredd flwyddyn galendr. Felly byddai'n bosibl cynnal etholiadau'r Cynulliad ar benwythnos, a fyddai'n golygu y gellid defnyddio adeiladau cyhoeddus gyda darpariaethau mynediad i'r anabl, megis ysgolion, fel gorsafoedd pleidleisio. Dylid hefyd ystyried ymestyn hyd oriau agor gorsafoedd pleidleisio ac o bosibl gynnal etholiadau dros gyfnod o fwy na diwrnod. Dylid ystyried argaeledd staff gorsafoedd pleidleisio, yn arbennig ar benwythnosau, wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.
- Byddai systemau pleidleisio drwy'r post ar gael yn ôl y galw yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Dylai'r systemau pleidleisio drwy'r post fod yn gyfeillgar i'r defnyddiwr gan ddarparu ar gyfer anghenion pobl anabl, yn arbennig y rheini â nam ar eu golwg. Roedd y Comisiwn Etholiadol wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad ar bleidleisio drwy'r post. Roedd cyfran uchel y pleidleisiau a ddifethwyd wrth bleidleisio drwy'r post yn destun pryder. Byddai'r adolygiad hefyd yn gwerthuso'r dulliau diogelwch presennol a oedd ar waith i atal camddefnyddio'r system. Dylid cynnal mwy o brosiectau peilot yn rhoi dewis i bob pleidleisiwr bleidleisio drwy'r post neu bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.
- Roedd y pwyllgor o'r farn bod hyfforddiant i swyddogion etholiadau a chlercod pleidleisio yn hanfodol, yn arbennig o ran cynorthwyo pobl â nam ar eu golwg neu eu clyw. Dylai'r hyfforddiant ymdrin â materion ymarferol sylfaenol, megis sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau mewn coridorau, a materion mwy penodol, megis defnyddio templedau cyffyrddadwy.
- Cytunodd y pwyllgor na ddylid defnyddio problemau o ran mynediad fel esgus dros gau gorsafoedd pleidleisio lle nad oedd yr adeiladau yn bodloni'r safonau angenrheidiol. Dylid ailbenodi gorsafoedd pleidleisio yn hytrach na'u cau er y byddai angen dewis amgen ymarferol er

mwyn gwneud hyn. Roedd datblygu gorsafoedd pleidleisio symudol, y gellid eu gweithredu yn yr un ffordd â llyfrgelloedd symudol, yn syniad arloesol a allai wella mynediad. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod lleoli gorsafoedd pleidleisio mewn archfarchnadoedd yn cynyddu nifer y pleidleiswyr.

- Un ateb cost effeithiol i broblemau hygyrchedd yn yr hir dymor fyddai datblygu mynediad parhaol i'r anabl i adeiladau cyhoeddus er y byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf. Roedd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn cwmpasu mynediad i orsafoedd pleidleisio ac felly byddai'n rhaid cydymffurfio â'r darpariaethau mynediad erbyn 2004.
- Gallai'r Comisiwn Etholiadol edrych ar bleidleisio gorfodol fel ffordd o wella cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd.
- Roedd hyrwyddo ymwybyddiaeth, cyngor a chymorth i'r rheini a oedd am bleidleisio yn sylfaenol o ran sicrhau'r cyfranogiad gorau posibl.
- Roedd y Comisiwn Etholiadol yn ystyried defnyddio technoleg fodern, i ategu dulliau pleidleisio traddodiadol. Byddai diogelwch unrhyw system a fyddai'n cael ei datblygu yn hollbwysig. Fodd bynnag, nododd y pwyllgor na fyddai'r rheini sy'n cael eu hallgáu ar hyn o bryd o'r system o bosibl yn elwa ar yr agenda foderneiddio hon.

2.5 Cytunodd y pwyllgor ar y canlynol:

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at CLlLC yn mynegi'r syniadau a'r pryderon a fynegwyd yn y cyfarfod **(pwynt gweithredu)**.
- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg ynghylch gwella mynediad i ysgolion **(pwynt gweithredu)**.
- Byddai'r pwyllgor yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu nodyn ar eu gwaith parhaus, gan gynnwys rhaglen gofrestru dreigl **(pwynt gweithredu)**.
- Cytunodd Steve Pomeroy i drafod y materion mynediad a godwyd gydag adrannau eraill y Llywodraeth.
- Byddai'r pwyllgor yn ystyried materion mynediad eto yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl toriad yr haf **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 3: Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo**

3.1 Amlinellodd John Scampion swyddogaethau Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) a ariannwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ac a oedd yn atebol iddo. Sefydlodd Deddf Mewnfudo a Cheisio Lloches 1999 OISC fel corff cyhoeddus annibynnol er mwyn sicrhau bod ymgynghorwyr mewnfudo yn hyfedr ac yn gweithredu er budd eu cleientau. Prif swyddogaeth OISC oedd rheoleiddio'r cyngor a roddir gan ymgynghorwyr mewnfudo yn y sector cyfreithiol, y sector gwirfoddol a'r sector er elw. Rhaid i sefydliadau sydd am roi cyngor, ac eithrio'r sector cyfreithiol, gofrestru gydag OISC a oedd wedi hynny yn rheoleiddio'r sefydliad drwy weithwyr achosion. Gellid erlyn sefydliadau nad oeddent yn cofrestru.

3.2 Roedd polisi gwasgaru presennol y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol creu isadeiledd cymorth

mewn ardaloedd newydd o’r wlad. Roedd nifer arwyddocaol o geiswyr lloches yng Nghymru, a’r nifer hynny’n cynyddu, er nad oedd y niferoedd mor uchel â’r hyn a ragwelwyd. Nid oedd rhai o’r sefydliadau a sefydlwyd i roi cyngor i geiswyr lloches yng Nghymru wedi’u cofrestru gan OISC eto.

3.3 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Amlinellodd y Cadeirydd ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i ddod ag OISC ynghyd â sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys CLlLC, awdurdodau lleol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Roedd y pwyllgor yn awyddus i sicrhau y croesawyd ceiswyr lloches i gymunedau yng Nghymru ac yn cydnabod bod rhwydwaith cymorth wedi’i reoleiddio yn hanfodol yn hyn o beth.
- Roedd OISC yn archwilio ansawdd a galluoedd ymgynghorwyr mewnfudo ac roedd yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau sy’n rhoi cyngor er mwyn datblygu eu sgiliau.
- Roedd 45% o’r cwynion yn cyfeirio at y sector cyfreithiol ac, er nad oeddent yn rheoleiddio’r sector hwn, roedd gan OISC rywfaint o bwerau yn y maes hwn. Roedd OISC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer yr Ysgrifennydd Cartref ar y ffordd yr oedd y sector yn cael ei reoleiddio. Roedd memorandwm o ddealltwriaeth wrthi’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd rhwng Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar ac OISC.
- Ar hyn o bryd nid oedd gan OISC yr adnoddau i gyfieithu cwynion a dderbyniwyd mewn ieithoedd heblaw Saesneg, er na fyddent yn gwrthod cwynion a wnaed mewn iaith arall. Nid oedd hyn yn glir o wefan OISC a byddai’n cael ei ddiwygio. Roedd y gallu i dderbyn cwynion mewn ieithoedd eraill yn flaenoriaeth i’w datblygu.
- Roedd OISC wedi hyrwyddo ei hun drwy gonsortia awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr a chanfu nad oedd gan rai awdurdodau lleol lawer o ddiddordeb.
- Nid oedd sefydliadau addysgol y wladwriaeth ac undebau myfyrwyr, ynghyd â chyrff y sector iechyd, yn cael eu rheoleiddio gan OISC, er ei bod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â darpariaethau’r cynllun.
- Byddai materion yn ymwneud â thrwyddedau gwaith yn cael eu cynnwys o dan y cynllun o dan fesur sydd ger bron y Senedd ar hyn o bryd. Byddai’r mesur yn cwmpasu sefydliadau sy’n rhoi cyngor i gyflogwyr ar faterion yn ymwneud â thrwyddedau gwaith ond ni fyddai’n cynnwys cyngor a ddarperir gan y cyflogwyr eu hunain.
- Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori wedi’i chofrestru gyda’r cynllun, er y gellid ymchwilio i ganolfannau unigol.

3.4 Gwnaeth y pwyllgor gais am nodyn gan OISC ar y materion a godwyd yn y cyfarfod. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 2.) Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n trafod ffyrdd y gallai’r Cynulliad hwyluso’r broses o wella cysylltiadau gyda sefydliadau yng Nghymru gyda swyddogion y Cynulliad **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 4: Adolygiad Sipsiwn-Deithwyr**

4.1 Gwnaeth Rachel Morris o Uned Ymchwil Cyfraith Teithwyr Prifysgol Caerdydd gyflwyniad fel rhan

o adolygiad Sipsiwn-Deithwyr y pwyllgor. Rhoddwyd enghreifftiau i'r pwyllgor o anweledEdd Sipsiwn-Deithwyr ac i ba raddau y'u derbyniwyd.

- Roedd Sipsiwn-Deithwyr yn aml yn anweledig ac yn dioddef hiliaeth a rhagfarn gan gymdeithas brif ffrwd. Yn aml yr unig bryd y deuai Sipsiwn-Deithwyr yn weledol oedd pan y'u hystyriwyd fel problem neu fater gorfodi'r gyfraith.
- Roedd gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddarparu amwynderau ar safleoedd Sipsiwn-Deithwyr.
- Yn gyffredinol, roedd portread negyddol o Sipsiwn-Deithwyr yn y cyfryngau ac roedd yr iaith a'r delweddau a oedd yn rhan o adroddiadau gan y cyfryngau yn aml yn sarhaus ac ni fyddai'r fath iaith a delweddau yn cael eu defnyddio i ddisgrifio lleiafrifoedd ethnig eraill.
- Roedd y gymuned barhaol yn aml yn ceisio dylanwadu ar yr heddlu i ddefnyddio eu pwerau disgresiwn i symud Sipsiwn-Deithwyr o safleoedd. Roedd costau symud Sipsiwn-Deithwyr o amgylch y wlad yn rheolaidd yn sylweddol.
- Roedd diffyg ystadegau a gwybodaeth yn archwilio materion cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer Sipsiwn-Deithwyr. Roedd goblygiadau data anghywir yn y cyfrifiad yn golygu, mewn rhai achosion, na ddarparwyd unrhyw wasanaethau ar gyfer Sipsiwn-Deithwyr, a phrin oedd y gwaith cynllunio strategol a wnaed i ddiwallu eu hanghenion.

4.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Byddai'r pwyllgor yn ceisio datblygu nifer o strategaethau 'manteision cyflym' fel rhan o adolygiad tymor hwy. Roedd awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu llawer o wasanaethau i Sipsiwn-Deithwyr ac roedd angen iddynt ddeall eu dyletswyddau.
- Byddai'r pwyllgor yn gofyn am wybodaeth a chanllawiau gan swyddogion cyswllt Sipsiwn-Deithwyr awdurdodau lleol yn ystod camau cynnar yr adolygiad.
- Roedd y pwyllgor am osgoi datblygu polisïau a oedd yn gorfodi Sipsiwn-Deithwyr i gael eu cymathu i gymdeithas brif ffrwd ond byddent yn ceisio galluogi unigolion i wneud dewis ar lefel eu cyfranogiad. Byddai deall anghenion Sipsiwn-Deithwyr yn hanfodol er mwyn datblygu strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Gallai'r pwyllgor gomisiynu tystiolaeth gan sefydliadau Sipsiwn-Deithwyr yn y DU ac Iwerddon fel rhan o'r adolygiad. Yn hyn o beth, roedd yn bwysig sylweddoli nad grðp homogenaidd oedd Sipsiwn-Deithwyr. Byddai Cymdeithas Genedlaethol Merched Sipsiwn yn sefydliad defnyddiol i'r pwyllgor gysylltu.
- Roedd cost darparu llety i Sipsiwn-Deithwyr yn anodd i'w phennu er yr amcangyfrifwyd bod tua £18 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn wrth symud pobl o safle i safle. Nid oedd yr amcangyfrif hwn yn cynnwys costau plismona.
- Roedd angen trechu'r honiadau nad yw Sipsiwn-Deithwyr yn talu treth. Roeddent yn talu treth gyngor a threth ar werth. Nid oedd yn glir i ba raddau y casglwyd treth incwm.
- Nid oedd Sipsiwn-Deithwyr yn achosi mwy o broblem o ran troseddau nag unrhyw garfan arall o gymdeithas ac, er mwyn newid amgyffrediadau'r cyfryngau, roedd yn bwysig mynd i'r afael â theuluoedd gwrth-gymdeithasol.
- Roedd y Sioe Frenhinol yn enghraifft o'r gymuned barhaol yn rhyng-gysylltu'n gadarnhaol â chymunedau o Sipsiwn-Deithwyr.

- Roedd Sipsiwn-Deithwyr yn wynebu lefelau uwch o fiwrocratiaeth na sawl grðp arall o fewn cymdeithas, yn arbennig mewn perthynas â phlismona a materion cynllunio. Yng Nghymru a Lloegr, cofnodwyd yn Hansard fod 80% o'r holl geisiadau cynllunio yn llwyddiannus tra bod 90% o'r holl geisiadau yn ymwneud â safleoedd Sipsiwn-Deithwyr yn aflwyddiannus.

4.3 Cytunodd y pwyllgor ar y canlynol:

- Byddai'r Clerc yn cysylltu â Rachel Morris i gasglu'r wybodaeth bresennol am Sipsiwn-Deithwyr **(pwynt gweithredu)**.
- Byddai David Melding yn Gadeirydd ar y panel penodi ar gyfer ymgynghorydd arbenigol yr adolygiad. Byddai Helen Mary Jones, Lorraine Barrett ac Eleanor Burnham hefyd yn eistedd ar y panel.

**Eitem 5: Yr Ymgyrch Cyflogau Cyfartal**

Papur: EOC 03-02(p3)

5.1 Cyflwynodd David Melding, Cadeirydd y Gweithgor ar Gyflogau Cyfartal, argymhellion y grðp ar sut y dylid datblygu'r ymgyrch.

- Bu achlysur lansio'r ymgyrch ar 7 Mawrth 2002 yn llwyddiant, er y byddai mwy o gyfranogiad gan y sector preifat yn hanfodol i sicrhau llwyddiant yr ymgyrch. Argymhellodd y grðp y dylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar achlysur lansio i'r sector preifat yn ystod Wythnos Busnes Cymru.
- Roedd y grwp o'r farn y dylai seminarau cyflogau cyfartal fod yn benodol ar gyfer llywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), addysg uwch a'r sector preifat.
- Argymhellodd y grwp y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Weinidogion yn amlinellu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ar faterion yn ymwneud â chyflogau cyfartal o fewn y cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan eu portffolios.
- Roedd y grwp o'r farn y byddai CD-ROM yn fwy effeithiol a hygyrch i'r sector preifat na fideo. Byddai Sarah Dickens a Neil Wooding yn cymryd rhan yn y broses o gynhyrchu'r CD-ROM. Argymhellodd y grðp y dylai'r Cynulliad, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru gytuno ar gynnwys y CD-ROM.

5.2 Cytunodd y pwyllgor ar yr argymhellion a wnaed gan y Gweithgor ar Gyflogau Cyfartal.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a phapurau i'w nodi**

Papurau: EOC 02-01(min), EOC-03-02(p4), EOC 03-02(p5) ac EOC-03-02(p6)

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

6.2 Nododd y pwyllgor y papurau canlynol:

- Aelodau o fwrdd cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n siarad Cymraeg.
- Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus - strategaeth hyfforddi'r Cynulliad ar gyfer aseswyr annibynnol.
- Penodiadau Cyhoeddus - trefniadau adborth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus.

6.3 Gofynnodd y pwyllgor am wybodaeth ychwanegol am nifer Cyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaethau GIG a oedd yn siarad Cymraeg wedi'i rhannu i ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd unigol lle y bo ar gael **(pwynt gweithredu)**.

6.4 Nododd y pwyllgor lwyddiant cynhadledd Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Deurywiaid Cymru y penwythnos diwethaf. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried gwahodd cynrychiolydd o'r Fforwm hwn i eistedd ar y pwyllgor fel gwahoddai sefydlog **(pwynt gweithredu)**.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

**Atodiad 1**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cynnwys Llythyr oddi wrth John Scampion, Comsiynwr Gwasanaethau Mewnfudo**

Dear Mr Rees,

Thank you for your letter of 15th May 2002. I would like to thank the Committee on Equality of Opportunity for its invitation to speak with its members. It was a very valuable day during which I gained a useful and interesting understanding of the issues faced in Wales.

Turning to the issues discussed at the meeting on 24th April which you highlighted in your letter, below is further guidance on the main issues raised.

- **Language of Complaints**

  I was asked at the Committee to consider removing from the website the statement that complaints are only taken in English. As I explained to the Committee, that was our initial position but one which we were very keen to move from. We have now been able to move from it and do receive complaints in languages other than English and have made an appropriate change to the website entry. The current website, however, does not provide information on 'how to make a complaint', in any other languages apart from English.

The OISC is aware of the importance of easy enabling access to information such as the Complaints Scheme. We are currently looking at ways in which the website can be improved and enhanced to ensure that it is user friendly. This review does include language development of the site.

- **The Position of Citizens Advice Bureaux Within the OISC Scheme**

A number of CABs do not provide immigration advice. Of those that do, there are few that provide advice above level 1. The OISC has accepted that all CABs are capable of providing immigration advice at level 1 based upon the assurances provided by NACAB in the Memorandum of Understanding. In simple terms, the OISC accepts that all bureaux are capable of delivering immigration advice at Level 1 due to the training programmes currently in place for advisers, the advice session supervisor system and the NACAB Information System which all bureaux use as the basis for their advice in this subject area.

The OISC has also accepted that individual advisers working at Level 1 do not have to declare their competence as individuals. This agreement is unique to advisers working at Level 1 within the CAB Service.

However, it is important to note that should a CAB provide immigration advice or services above Level 1, this ‘block exemption’, does not apply and that the specific CAB is required to apply to the OISC for exemption at the higher level.

- **Work Permit Clarification**

The Immigration and Asylum Bill, which is currently making its way through Parliament, clarifies the situation with regards to work permits. The Bill proposes to make work permits a 'relevant matter'; this means that work permits will become one of the categories of work that are regulated by the OISC scheme. The Immigration and Asylum Bill is scheduled to be passed in the autumn of 2002 and will take effect before the start of 2003. This amendment is supported by Work Permits (UK) and OISC.

In the interim, OISC considers that work permit applications are within the regulatory scheme. Work permit applications are inevitably and inextricably linked with immigration matters. If someone is applying for a work permit, this has implications for their immigration status. The work permit is of no use without an immigration application being made either from abroad, at a port or to the Home Office. These immigration applications are an inevitable consequence of the work permit being obtained and advice should be provided at that stage. OISC has taken leading counsel's opinion on this matter.

Employers advising their own employees on work permits and related immigration matters are not within the OISC scheme under SI 2002 No. 9 The Immigration and Asylum Act 1999 (Part V

Exemption: Relevant Employers) Order 2002. This order is in force until 31st December 2002. It is likely that this Order will be made indefinite once work permits are added to the list of work covered by the OISC scheme.

- **Student Unions Clarification**

In clarification of the minutes of the meeting on 24th April 2002 at the National Assembly, it is the case that state colleges and universities, student unions and state regulated health sector bodies, while originally subject to section 84 of the Immigration and Asylum Act 1999, were given a block exemption, the result being that while they still maintain a duty to follow the Commissioner’s Codes of Standards and complaints scheme, they do not need to apply for registration or exemption. It should be noted that these organisations are regulated by the OISC.

- **Designated Professional Bodies**

Although the OISC does not have any direct regulatory power over the below listed designated professional bodies, it can take complaints about them if the issue relates to immigration advice and services. These complaints are then referred to the appropriate enforcement/ regulatory body.

  - The Law Society
  - The Law Society of Scotland
  - The Law Society of Northern Ireland
  - The Institute of Legal Executives
  - The General Council of the Bar
  - The Faculty of Advocates
  - The General Council of the Bar of Northern Ireland

| | |
|---|---|
| Complaints concerning breach of OISC rules and codes | 124 |
| Complaints against DPB regulated advisers | 181 |
| Complaints / Section 91 investigations | 99 |
| Complaints out of OISC jurisdiction (out of time) | 13 |
| Total | 417 |

(end of April 2002)

- **Impact of The scheme in Wales**

  In terms of organisations within the OISC scheme, the numbers reflect a limited impact. There are currently 3 registered organisations (for profit) and 1 exempted (not for profit). To date there have been no complaints lodged with the OISC about organisations in Wales. With regards to intelligence information, the figures are again limited with only 1 issue being brought to the OISC's attention involving a solicitor in Cardiff. Information regarding illegal provision of immigration advice or services in Wales by those not registered or exempted by the OISC is consistent with these statistics. Currently there are only 2 ongoing investigations relating to organisations based in Wales who are allegedly providing immigration advice and services without being registered or exempted and who are not authorised to provide such advice through membership of a DPB.

Although it appears at this point in time that the issue of immigration advice and services is limited in Wales, this does not sideline our anticipated role in Wales. We aim to remain active in the region and to continue to promote the work of the OISC and the protection afforded to the recipients of immigration advice and services. Although the OISC's Community Awareness Programme is in its early stages, we have endeavoured to participate in relevant events in Wales such as the 3rd Welsh National CLS Conference.

We strongly value the development of good relationships with key stakeholders across the country and, as such, the support of the Committee and the National Assembly for Wales is of vital importance to our work.

Yours sincerely,

**John Scampion**

**Immigration Services Commissioner**